

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 12fed Ebrill, 2021**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)
 Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)
 Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Glyn Roberts, Michael Strain,
 Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
 Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)
 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Ifor Owen

104. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd am y cyfleusterau 'zoom' ar gyfer yr aelodau.

105. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd un aelod, Y Cyngorydd Glyn Roberts, yn datgan diddordeb yn eitem 107(c).

106. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 8fed Mawrth, 2021. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones.

107. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

- (a) Cais C21/0216/32/LL – sied aml bwrpas amaethyddol yn lle sied bresennol – Siop Rhos, Bryn croes.
- (b) Cais 21/0266/32/LI – dymchwel anedd presennol a chodi anedd newydd yn ei le – Minffordd, Bryn croes.
- (c) Cais C21/0262/32/LL – gosod to uwchben pwll slyri presennol – Capel Ty Mawr, Sarn Mellteyrn
 (Noder y datganwyd diddordeb yn y cais hwn gan Y Cyngorydd Glyn Roberts a bu iddo fynd i'r 'ystafell aros' tra bu'r Cyngor yn trafod a phenderfynu ar y cais).

Penderfynwyd cefnogi'r tri chais.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Reolwr Cynllunio, Cyngor Gwynedd, fod apêl o dan Adran 78(1) wedi ei chyflwyno gan Mr. Elyfn Richards – achos APP/Q6810/A21/3272047 – agor mynedfa gerbydol newydd, ymestyn gardd ddomestig a gwaith peirianyddol i newid lefelau tir gan gynnwys creu gofod parcio newydd – Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn.

Gellir gweld y dogfennau apêl ar: <https://acp.planninginspectorate.gov.uk/>

Trafodwyd y cais gwreiddiol Cais C20/0698/32/DT – creu mynedfa gerbydol newydd i'r briffordd yn Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn ar 14eg Medi, 2020. Yna trafodwyd cais diwygiedig ar 9fed Tachwedd sef agor mynedfa gerbydol newydd, ymestyn gardd

ddomestig a gwaith peirianyddol i newid lefelau tir gan gynnwys creu gofod parcio newydd yn Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn.

Penderfynodd y Cyngor ar ddau achlysur gefnogi'r ceisiadau a mynegwyd hynny i'r Rheolwr Cynllunio.

Teimlad y Cyngor oedd fod gwrthod caniatáu agor mynedfa gerbydol newydd a.y. yn hollol afresymol o gofio fod lleoliad y ty ar gongl dywyll a pheryglus a byddai datblygiad o'r fath yn gwella gwelediad ac yn fwy diogel.

Nodwyd o lythyr y Rheolwr Cynllunio 'gan fod yr apêl hon yn apêl deiliad tŷ, fasnachol bach neu hysbyseb/ion, nid oes cyfle i chi gyflwyno sylwadau. Fodd bynnag, bydd unrhyw sylwadau a wnaed ar y cais cynllunio yn cael ei anfon i'r Arolygaeth Cynllunio gyda chopi i'r apelydd. Rhoddir ystyriaeth i'r cyfryw sylwadau gan y Cynulliad wrth benderfynu ar yr apêl."

Yn wyneb y sylwad uchod, gofynnwyd i'r Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, fynd i'r apêl a chyflwyno sylwadau'r Cyngor.

Penderfynwyd gweithredu'n unol â'r uchod.

108. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Cyflwynwyd ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i faterion anfonwyd i'w sylw yn dilyn y Cyngor diwethaf – gweler isod:

"Ffordd o Graig Fael i Graig Ewig a Graig Ewig am Groeslon Muriau, Bryncroes


Rwyf yn gwerthfawrogi eich rhwystredigaeth ond mae'r ffyrdd yma wedi ei nodi ar restr waith ail wynebu dymunol Ardal Dwyfor. Fe'i cedwir yn ddiogel ei thramwyo, i ofynion cenedlaethol fel sydd wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cynnal Asedau Priffyrdd Cyngor Gwynedd. Mae blaenoriaethau rhestr ail wynebu dymunol yn cael ei hadolygu yn rheolaidd e.e. wedi'r gaeaf ac ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd pryd y cadarnheir y cyllidebau ar gyfer cynnal strwythurol o'r adeiladwaith am y 12 mis i ddilyn. Mae oddeutu 500 milltir o rwydwaith ffyrdd sirol yn Ardal Dwyfor gyda'r rhestr waith ail wynebu dymunol yn anffodus mewn sefyllfa o aros am yn ôl yn disgwyl sylw oherwydd diffyg cyllideb. Mae yn ofynnol arnaf reoli cyllideb cynnal ffyrdd Ardal Dwyfor i reolau ariannol y Cyngor ac yn hyn, nid yw yn ganiataol i mi yn fwriadol orwario nac ymrwymo gwariant yn fwy nac sydd wedi ei gyllido.

Gwter yn Fynedfa Mynwent Llandegwning

Darparwyd y gwter yma yn debyg iawn pan wnaed gwelliannau i fynedfa'r fynwent. Atodaf i'ch sylw copi cynllun y cyflwynwyd ar y pryd i Gyngor Gwynedd pan wnaed y gwaith circa 1977. Mae cynnal y gwter gan ei fod o fewn y fynedfa a'r draen islaw o fewn y fynwent neu o fewn y cae cyfagos felly yn ymddangos yn gyfrifoldeb eich Cyngor Cymdeithas os yw'r fynwent o dan ofal y Cyngor Gymuned.

Canfod yr arllwysfa'r bibell gyswllt oddi fewn y fynwent neu gae cyfagos ddylech chwi wneud gyntaf os yn bosib. Gan obeithio nad yw'r gwter yn disbyddu i bwll mwydo. Os hynny dros 40 mlynedd gall fod y pwll mwydo wedi methu, a dod i ddiwedd ei oes weddilliol."

Y cynllun y cyfeirir ato uchod – gweler isod:



Adroddodd Y Cyngorydd Gareth Williams ei fod wedi gwneud cais am gael cyfarfod ar y safle i drafod cyflwr y ffordd o Graig Fael i Graig Ewig, Bryncroes, ond 'roedd y Swyddogion yn teimlo fod hynny ddim yn angenrheidiol gan fod y ffordd ar y rhestr i'w hail wynebu ond ar y pryd mae'r gyllideb yn brin iawn. Bydd y ffordd yn cael sylw pan ddaw arian i law.

O berthynas i'r broblem ger mynedfa i Fynwent y Cyngor yn Llandegwning, addawodd Y Cyngorydd Dylan Parry Jones a Glyn Roberts gael golwg ar y safle ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Yn y cyswllt hwn, gofynnodd aelod beth oedd y sefyllfa ynglyn a chamfeydd ar diroedd amaethyddol oedd wedi cael eu cau neu mewn cyflwr gwael. Addawodd y Clarc y byddai'n cysylltu â'r Adran Llwybrau er cael gwybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd derbyn a gweithredu'n unol â'r adroddiadau uchod.

Gwybodaeth arall ddaeth i lawr oedd y byddai y gwaith oddi fewn i 30/40 mya ym mhentrefi Botwnnog, Bryncroes a Sarn Mellteyrn yn cymryd lle yn ystod misoedd Mai, Gorffennaf a Medi.

109. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

110. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

Cyflwynwyd yr ohebiaeth isod, ond o dan y Ddeddf Diogelwch Data ni ellir eu cynnwys yn y cofnodion.

(1) Llythyr gan drethdalwr dyddiedig 3ydd Mawrth, 2021

(2) Llythyr y Clarc i Reolwr Meddygfa Rhydbach dyddiedig 9fed Mawrth, 2021

- (3) Ymateb Dr. O.G. Morris dyddiedig 16eg Mawrth, 2021, i'r ail sylw anfonwyd gan y Clarc (4ydd paragraff).
- (4) Ymateb Y Rheolwr dyddiedig 25ain Mawrth, 2021 i lythyr y trethdalwr a thrydydd paragraff o lythyr y Clarc.
- (5) Ymateb y trethdalwr dyddiedig 31ain Mawrth, 2021, i lythyr Rheolwr y Feddygfa

Yn ei lythyr mae'r trethdalwr yn cyfeirio at dargedau Llywodraeth Cymru, ac amgawyd gopi Saesneg o'r ddogfen "Access to in-hours GMS Services Standards – Guidance for the GMS Contract Wales – 2019/20" i aelodau'r Cyngor. 'Roedd y trethdalwr yn cyfeirio yn benodol at gymal II (tudalen 8), cymal VII (tudalen 11) a chymal VIII (tudalen 12) o'r cyfryw ddogfen.

Rhoddodd y Gadeiryddes gefndir i'r llythyrau uchod – derbyniwyd y llythyr gan y trethdalwr ychydig ddyddiau cyn i Dr. Morris ddod i gyfarfod y Cyngor ar 8fed Mawrth, 2021. Ceisiwyd cysylltu â Dr. Morris er rhoi gwybodaeth iddo am y llythyr ond yn anffodus 'roedd ar ei wyliau ac felly penderfynwyd mai doeth fyddai peidio ei gyflwyno ar noson y Cyngor ond crybwyll y byddai'n cael ei anfon ato.

Nododd aml i aelod fod cryn bryder gan gleifion Meddygfa Rhydbach ac fod y 'moral' yn isel iawn ar hyn o bryd. Er hyn, roedd y Cyngor yn awyddus iawn i gyd-weithio gyda'r Feddygfa a chario cenadwri allan i'r cyhoedd a cheisio ennill hyder unwaith eto er diogelu gwasanaeth mor amrhisiadwy a gynigr yno. Gwerthfawrogir, wrth gwrs, fod y Feddygfa, yn ystod y cyfnod heriol yma, yn cael amser anodd, ond teimlwyd fod ceisio cyd-weithio, y Cyngor yn llais i'r cleifion a'r Feddygfa, yn holl bwysig er dyfodol y gwasanaeth gwerthfawr yma ym Mhen Llŷn.

O berthynas i un pwynt godwyd yn dilyn cŵyn gan glaf sut y bu iddo gael ei drin gan un o'r gwirfoddolwyr ddiwrnod y brechiad, dywedodd Dr. Morris "os yw y Cyngor yn ymwybodol o unioglion a fysa yn fodlon cynnig helpu allan acw, mae croeso iddynt gysylltu a'r Feddygfa yn bersonol."

Dywedodd y Cyngorydd Glyn Roberts a Michael Strain y byddant hwy yn barod i gynorthwyo petai'r angen a gofynnwyd i'r Clarc anfon eu henwau ymlaen.

Penderfynwyd gweithredu'n unol â'r adroddiad uchod.

Yn y cyswllt hwn, adroddodd y Clarc ei bod yn derbyn nifer o gwynion gan y cyhoedd ynglyn a'r gwasanaeth a ddarperir yn y Feddygfa ym Motwinnog a gofynnodd am arweiniad sut i ddelio â hwy.

Penderfynwyd os bydd i'r Clarc neu unrhyw aelod o'r Cyngor dderbyn cŵyn am y Feddygfa ym Motwinnog, yna gofyn i'r cwynydd roi yr holl fanylion mewn ysgrifen ac yna gwnaiff y Cyngor ei anfon ymlaen ar ei ran/rhan.

III. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliad a ganlyn:

Cwmni Yswiriant Zurich

£714.18 (siec 200729)

Noder mai dyma'r swm adnewyddu am 2020/21 ac nid £708.17 fel adroddodd y Clarc yn y cyfarfod.

Awdurdodwyd i'r Clarc gael nifer o sieciau wedi eu harwyddo ymlaen llaw gan Y Cynghorydd Ifor Owen a Glenys Williams. (sieciau 200727 – 200732 – dwy siec wedi eu canslo 200727 a 200728).

112. CYFARFOD WYNEB YN WYNEB – CYFARFODYDD Y CYNGOR

Gofynnwyd y cwestiwn a oedd modd cael ail ddechrau cyfarfod wyneb yn wyneb. Addawodd y Clarc y byddai'n cysylltu â Un Llais Cymru er derbyn eu harweiniad.

113. HARDDU'R PENTREFI

Wrth derfynu, llongyfarchodd y Clarc bawb a fu'n ymwneud â phlannu'r bylbiau ym mhentrefi Botwnnog, Sarn Mellteyrn a Bryncroes – mae'r daffodil yn ei flodau ac yn werth i'w gweld.